

# Theatr Clwyd

Rheolwr Blaen Tŷ Ar Ddyletswydd  
Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

**Contract Tymor Penodol**  
**16 awr yr wythnos**  
**TC04 SCP8-12 £19,945 - £21,589**  
**Cychwyn ar unwaith tan y 15ed o Dachwedd 2019**

Mae'r Adran Gweithrediadau'n gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

O dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, bydd y Rheolwr Blaen Tŷ Ar Ddyletswydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb gweithredol am flaen y tŷ, gan sicrhau gwasanaeth cyson ddiogel, effeithlon ac o safon uchel i gynulleidfaedd, ymwelwyr a staff.

Gyda dyfodiad y tîm Gweithredol newydd yn ddiweddar - y Cyfarwyddwr Artistig, Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Liam Evans-Ford, mae Theatr Clwyd yn mynd drwy gyfnod cyffrous o newid, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y dyfodol. Mae Theatr Clwyd yn theatr i bawb – i'n cymuned leol deyrngar, y staff brwd, artistiaid cenedlaethol a rhyngwladol ac wrth gwrs, ein cynulleidfa angerddol ac amrywiol.

Dylai ymgeiswyr fod â phrofiad blaenorol o weithio mewn rôl sydd â'i ffocws ar y cwsmer mewn amgylchedd tebyg, a bod yn barod i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos, dros y penwythnos ac ar wyliau banc.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:

Enw: Andy Reilly-Price

Teitl Swydd: Rheolwr Gweithrediadau

Ffôn: 01352 701882

Oherwydd ein bod yn derbyn llawer o geisiadau, nid ydym yn gallu cysylltu â phob ymgeisydd yn unigol felly, os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn 3 wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.